**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Owain Gethin Davies
Cadeirydd dros dro
Adnodd Cyf

Gethin.Davies@adnodd.llyw.cymru

Mawrth 2023

Annwyl Owain Gethin

**Llythyr cylch gwaith Adnodd**

Yn gyntaf hoffwn eich llongyfarch ar eich penodiad fel Cadeirydd dros dro Adnodd, ac rwy'n dymuno'n dda i chi yn y rôl hon.

Rwy'n hynod falch i weld Adnodd wedi ei sefydlu. Tra yn gwireddu'r amcan yn ein strategaeth *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* o 'gynllunio ar gyfer seilwaith Cymru gyfan ar gyfer cynhyrchu adnoddau perthnasol ac amserol ar gyfer y cwricwlwm yn Gymraeg a Saesneg', gall fwrw ymlaen i wireddu un o ymrwymiadau allweddol 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl' o sicrhau fod adnoddau sy'n cael eu comisiynu yn cael eu datblygu yn Gymraeg a'r Saesneg yr un pryd, i gefnogi ein cwricwlwm newydd. Gwn fod hyn wrth wraidd gweledigaeth Adnodd.

Rwy'n cydnabod y gwaith sylweddol sydd ynghlwm â chreu Adnodd ac yn cydnabod y gall y cyfnod sefydlu cychwynnol i unrhyw gwmni newydd fod yn heriol. Er hynny, rwyf am weld y cwmni'n gwneud cynnydd cyflym wrth sefydlu ei hun fel y gwasanaeth 'go to' ar gyfer sicrhau darpariaeth a hyrwyddo adnoddau addysgol a deunyddiau ategol dwyieithog yng Nghymru.

Mae Adnodd yn gwbl atebol i Weinidogion Cymru fel is-gwmni gyfyngedig trwy warant dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Dyma'r llythyr cylch gwaith ffurfiol a gyflwynir i Adnodd er mwyn iddo gyflawni ei amcanion. Erthyglau cwmni Adnodd a'r Cytundeb Fframwaith yw sail y llythyr cylch gwaith yma rhwng Llywodraeth Cymru ac Adnodd. Y ddwy ddogfen hyn, ynghyd â'r llythyr cylch gwaith hwn a'r Cynllun Busnes a gweithredol, sydd eto i'w gymeradwyo, yw'r contract rhwng Adnodd a Llywodraeth Cymru.

**Cynllun Busnes**

Bydd angen i Adnodd ddatblygu ei Gynllun Busnes gan gymryd i ystyriaeth y ddogfen hon, unrhyw setliadau cyllideb dangosol gan Lywodraeth Cymru a, lle y bo'n berthnasol, Erthyglau'r Cwmni a'r Cytundeb Fframwaith.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae disgwyl i'r Cynllun Busnes gynnwys Cynllun Gweithredol cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Rhaid i'r Cynllun gynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd bod blaenoriaethau'n cael eu gweithredu. Disgwylir i'r Cynllun Gweithredol gwmpasu'r holl agweddau a nodwyd yn y cylch gwaith hwn a'r Atodiad cysylltiedig, yn ogystal â chael ei lywio gan gynllunio trosiannol manylach sy'n digwydd rhwng y cwmni a'm swyddogion.

Dylid amlinellu materion llywodraethu a chorfforaethol yn glir gan gynnwys:

- Llywodraethu Corfforaethol (gan ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys drafftio cod ymddygiad ar gyfer aelodau Bwrdd Adnodd);
- Datblygiadau corfforaethol/sefydliadol yn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg, iechyd a diogelwch, sicrhau ansawdd a chyfathrebu/marchnata;
- Ystyriaethau Gwerth am arian; a
- Staffio ac adnoddau.

Dylid cyflwyno Cynllun Busnes a Gweithredol 2023/24 i swyddogion ei gytuno erbyn diwedd chwarter 1 (30 Mehefin 2023).

**Blaenoriaethau Strategol**
Blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod 2023-26 gaiff eu nodi yn y llythyr hwn, rwy'n disgwyl i'r rhain aros, yn fras, yr un fath ond gall yr amcanion oddi tanynt ddatblygu a newid dros amser. Manylir ar y rhain yn Atodiad A. Bydd y llythyr cyllido blynyddol yn rhoi cyfle i adolygu'r amcanion, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, a bod y lefel cyllido yn briodol.

**Dyraniad cyllid**
Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, gallaf gadarnhau y bydd cyfanswm cyllideb adnoddau o £1.065 miliwn ar gael i Adnodd i gefnogi'r amcanion hynny. Bydd y swm hwn ar gael trwy Gymorth Grant, i'w hawlio'n chwarterol yn ôl tystiolaeth o angen. Ar gyfer y blynyddoedd ariannol dilynol, mae cyllideb adnoddau dangosol o £2,070,000 yn 2024-25; £4,000,000 yn 2025-26, a gallai'r swm hwn newid, ond fe ellir ei ddefnyddio at ddibenion blaen gynllunio.

Fel arfer, bydd y gyllideb adnoddau a'r arian parod Cymorth Grant yn wahanol. Cymorth Grant yw swm yr arian sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru i Adnodd ym mhob blwyddyn i ariannu ei weithrediadau ac mae'n annibynnol o ffigurau'r gyllideb, er ei fod yn deillio ohonynt. Nid yw'n cynnwys dibrisiant, unrhyw addasiadau cyfrifo eraill nac unrhyw orchudd cyllidebol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer defnydd y Cwmni o'i gronfeydd wrth gefn ei hun. Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf i Adnodd, nid yw'r wybodaeth sydd ei hangen i rannu'r angen ariannol o'r gyllideb adnoddau ar gael eto felly mae'r dyfarniad ariannu cychwynnol yn seiliedig ar y Cymorth Grant Arian parod yn unig. Wrth i'r wybodaeth hon ddod ar gael yn ystod y flwyddyn bydd y dyfarniad ariannu yn cael ei rannu rhwng y gyllideb adnoddau a'r Cymorth Grant Arian parod mewn unrhyw lythyrau ariannu dilynol.

**Pwynt cyswllt Llywodraeth Cymru / Adrodd**
Bethan Webb fydd yn arwain Tîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru, a'ch pwynt cyswllt arferol o fewn y tîm fydd Siwan Jones. Fel y soniwyd uchod, bydd angen cynllun busnes drafft ar y Tîm Partneriaeth erbyn 30 Mehefin, ac yna bydd gan Lywodraeth Cymru gyfnod o bythefnos ar y mwyaf i adolygu a darparu adborth, ac i awgrymu newidiadau posibl. Bydd y cynllun busnes yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol ar ddiwedd y cyfnod pythefnos yma erbyn 14 Gorffennaf.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi, ac at weld Adnodd yn cyflawni ei flaenoriaethau yn llwyddiannus.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

# Adnodd
# Blaenoriaethau Strategol 2023 – 2026:

## 1. Datblygu amcanion corfforaethol Adnodd

Amcanion penodol ar gyfer 2023-24:

a) Sefydlu trefniadau llywodraethu corfforaethol effeithiol sy'n adlewyrchu'r gofynion a nodir yn Neddf Cwmnïau 2006, Dogfen Erthyglau'r Cwmni a'r Cytundeb Fframwaith, megis cynlluniau dirprwyo, polisïau statudol perthnasol, a pholisïau caffael.

b) Mae Llywodraeth Cymru'n mynnu bod pob un o'i chwmnïau sy'n eiddo i'r Llywodraeth yn gweithio'n unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd gofyn i chi adrodd i'ch Tîm Partneriaeth ar sut mae Adnodd yn defnyddio'r pum ffordd o weithio, sut mae'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod lles, a sut bydd yn mynd ati i ddatblygu flwyddyn ar ôl blwyddyn.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – The Future Generations Commissioner for Wales

c) Penodi Prif Swyddog Gweithredol, cytuno ar strwythur staffio a phenodi yn unol â hynny.

d) Sefydlu swyddogaethau a gwasanaethau busnes hanfodol cymesur i sicrhau bod y cwmni'n gweithredu'n effeithiol.

e) Sefydlu trefniadau rheoli ariannol, gan gynnwys tafluniad llif arian amlinellol a rhagolwg alldroi adnoddau ar gyfer y cyfnod cychwynnol o 12 mis a gwmpesir yn y llythyr hwn.

f) Datblygu gwefan gorfforaethol ar gyfer Adnodd a sicrhau presenoldeb ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol.

## 2. Sicrhau bod adnoddau perthnasol, amserol a deunyddiau ategol ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ar yr un pryd, i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau

Amcanion penodol ar gyfer 2023-24:

a) Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn cael dealltwriaeth anghenion y sectorau a'r gynulleidfa o ran comisiynu a darparu adnoddau, hy adnabod anghenion, fformat adnoddau ac ati.

b) Sefydlu model comisiynu priodol, yn seiliedig ar gyd-awduro, sydd yn:
i. adlewyrchu a diwallu anghenion y sector addysg a rhanddeiliaid allweddol
ii. sicrhau gwerth am arian
iii. gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd ar gael yng Nghymru
iv. alinio a manteisio ar berthnasau a dulliau presennol ar draws y sector addysg, gan gynnwys y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm.

c) Ymgysylltu â Chymwysterau Cymru, gan sefydlu perthynas waith gyda Cymwysterau Cymru a'r cyrff dyfarnu ynghylch gofynion adnoddau ar gyfer y cymwysterau sydd ar fin cael eu diwygio.

## 3. Darparu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer comisiynu, datblygu a chynhyrchu adnoddau, gan sicrhau bod adnoddau a ddatblygwyd yn cyd-fynd ag ethos ac egwyddorion craidd Cwricwlwm i Gymru ac yn addas i'r diben

Amcanion penodol ar gyfer 2023-24:

a) Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd allweddol er mwyn cael dealltwriaeth o'r ffordd orau o sicrhau adnoddau o ansawdd, a'r ffordd y gall ymarferwyr yn

benodol gefnogi a bwydo i mewn i'r broses hon i sicrhau bod adnoddau â gomisiynwyd yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion.

b) Datblygu, profi a sefydlu fframwaith sicrhau ansawdd yn seiliedig ar fewnwelediadau a ddarperir drwy'r broses ymgysylltu, sy'n sicrhau adnoddau a deunyddiau ategol sydd yn:
   i. adlewyrchu'r egwyddorion a nodwyd yn y Canllaw Adnoddau a Deunyddiau Ategol a gydawdurwyd ac a gyhoeddwyd yn 2022
   ii. cyd-fynd ag ethos ac egwyddorion Cwricwlwm i Gymru
   iii. cael eu hadolygu a'u cadw'n berthnasol.

**4. Datblygu'r hyrwyddo, yr ymwybyddiaeth a'r defnydd effeithiol o adnoddau.**

Bydd amcanion penodol ar gyfer y flaenoriaeth hon yn cael eu manylu mewn llythyrau ariannu yn y dyfodol.

**5. Datblygu a buddsoddi mewn sgiliau a’r gallu i greu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru.**

Bydd amcanion penodol ar gyfer y flaenoriaeth hon yn cael eu manylu mewn llythyrau ariannu yn y dyfodol.